Llythyr at ddysgwyr am ganlyniadau ymgynghoriad Ofqual

25 Chwefror 2021

Annwyl Ddysgwr

Gwybodaeth i ddysgwyr am drefniadau asesu ar gyfer cymwysterau galwedigaethol

Fe wnaethom ysgrifennu atoch ar 9 Chwefror ynghylch trefniadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol eleni. Yn dilyn cyhoeddiadau a wnaed gan Ofqual heddiw, gallwn nawr roi rhagor o wybodaeth i chi am y trefniadau asesu ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ar gyfer Haf 2021,

Ym mis Ionawr, cynhaliodd Ofqual ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar y trefniadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol. Mae'r ymgynghoriad hwnnw bellach wedi dod i ben ac mae Ofqual wedi cyhoeddi'r canfyddiadau.

Mae llawer o gymwysterau galwedigaethol sy'n cael eu sefyll yng Nghymru hefyd yn cael eu sefyll yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Dim ond yng Nghymru y mae rhai cymwysterau galwedigaethol, megis Sgiliau Hanfodol a'r rhai ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant ar gael. Fel rheoleiddiwr cymwysterau, rydym wedi sicrhau bod y dull o ddyfarnu cymwysterau galwedigaethol yn 2021 yr un fath, waeth ble y maen nhw'n cael eu sefyll.

Rwy'n sefyll cymhwyster sy'n debyg i Safon Uwch neu TGAU. Sut fydda i'n cael gradd?

Os ydych yn sefyll cymhwyster sy'n debyg i Safon Uwch neu TGAU, fel BTEC, Dyfarniadau Galwedigaethol CBAC a Thystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol neu'r Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau newydd, yna bydd eich graddau'n cael eu pennu gan eich ysgol neu goleg yn seiliedig ar ystod o wybodaeth asesu.

Yn yr un modd â Safon Uwch a TGAU, bydd eich ysgol neu goleg yn sicrhau bod yr asesiad o'ch gwaith ar bynciau rydych chi wedi gallu ymdrin â nhw yn ystod y cwrs, felly nid ydych chi dan anfantais o'r broses hon.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Bydd cyrff dyfarnu'n darparu mwy o wybodaeth am eu gofynion penodol dros yr wythnosau nesaf. Dylech dderbyn eich canlyniad ddim hwyrach na dysgwyr sy'n astudio TGAU a Safon Uwch. Cyhoeddir canlyniadau Safon Uwch ar 10 Awst a chanlyniadau TGAU ar 12 Awst.

Nid yw fy nghymhwyster yn debyg i TGAU na Safon Uwch ond mae angen i mi symud ymlaen. Beth sy'n digwydd i mi?

Mae rhai cymwysterau yn cefnogi dilyniant i astudio pellach neu gyflogaeth ond nid ydynt yn debyg i gymwysterau TGAU na Safon Uwch, er enghraifft Sgiliau Hanfodol Cymru. Gall arholiadau ac asesiadau ar gyfer y cymwysterau hyn barhau lle mae'n ddiogel gwneud hynny, a hynny o bell neu wyneb yn wyneb. Bydd addasiadau sydd wedi'u rhoi ar waith yn dal i fod ar gael. Os na allwch sefyll yr asesiad pan fydd angen gwneud hynny, yna bydd trefniadau amgen ar gael i chi er mwyn rhoi pob cyfle i chi symud ymlaen. Bydd cyrff dyfarnu'n rhoi arweiniad i ganolfannau ar y trefniadau amgen.

Bydd asesiadau Sgiliau Hanfodol Cymru dal i fod ar gael, ond os na allwch sefyll yr asesiadau oherwydd effaith Covid-19, yna byddwch yn gallu derbyn canlyniad yn seiliedig ar ddyfarniad eich athro neu asesydd. Byddan nhw'n defnyddio ystod o wybodaeth asesu, a allai gynnwys asesiadau yr ydych wedi'u cwblhau yn eich ysgol, coleg neu ddarparwr hyfforddiant, neu gartref. Bydd cyrff dyfarnu'n darparu rhagor o wybodaeth am eu gofynion penodol dros yr wythnosau nesaf.

Rwy'n sefyll cymhwyster ble mae'n ofynnol i mi ddangos cymhwysedd ymarferol neu alwedigaethol. A fydda i'n gallu cael canlyniad?

Os ydych yn sefyll cymhwyster ble mae'n ofyn i chi ddangos sgiliau ymarferol, fel plymio, adeiladu, y celfyddydau perfformio neu drin gwallt, yna bydd angen i chi gael eich asesu ar eich sgiliau ymarferol cyn y gallwch gymhwyso. Dylai eich asesiadau fod yn parhau fel arfer lle bo modd, er y gellir eu cynnal mewn ffordd wahanol, er enghraifft o bell neu gyda thasgau ychydig yn wahanol. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen gohirio eich asesiadau hyd nes y gellir eu cynnal yn ddiogel yn unol â chanllawiau iechyd y cyhoedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau gweithredol i gefnogi canolfannau i gael dysgwyr yn ôl yn ddiogel.

Sut alla i ddod o hyd i ragor o wybodaeth am fy nghymhwyster?

Edrychwch ar wefan y corff dyfarnu i gael rhagor o wybodaeth am y dull ar gyfer pob cymhwyster. Bydd y corff dyfarnu yn anfon mwy o wybodaeth i'ch ysgol, coleg neu ddarparwr hyfforddiant am yr hyn y bydd angen i chi ei wneud i gwblhau eich cymhwyster cyn gynted â phosibl. Gallwch hefyd gadw llygad am offeryn egluro

Ofqual, a gyhoeddir yn ystod mis Mawrth lle byddwch yn gallu chwilio am y dull ar gyfer eich cymhwyster chi, gan gynnwys cymwysterau sydd ar gael yng Nghymru yn unig.

Grŵp Cynghori i Ddysgwyr Cymwysterau Cymru

Rydym yn sefydlu Grŵp Cynghori i Ddysgwyr a fydd yn ein helpu i siarad â dysgwyr a deall yr hyn sydd ei angen arnynt gennym ni. Rydym yn croesawu ceisiadau gan ystod o ddysgwyr o wahanol gefndiroedd, gan gynnwys y rhai sy'n astudio cymwysterau galwedigaethol, i sicrhau bod gennym gynrychiolaeth eang ar y grŵp hwn. Y dyddiad cau i wneud cais yw 7 Mawrth ac mae mwy o wybodaeth am yr hyn sy'n ofynnol ar ein gwefan.

Byddwn yn cyhoeddi mwy o wybodaeth am ddyfarnu yn haf 2021 fel y byddwn yn gallu gwneud hynny. Mae gwybodaeth ar ein gwefan ac rydym yn diweddaru hyn yn rheolaidd.

Yn gywir

Philip Blaker

Prif Weithredwr